AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Dulliau eraill 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (yr Arolwg Teithio). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion a 18,000 o deithiau a gofnodwyd o bob cwr o Gymru. Ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yw'r data.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar deithio ar drafnidiaeth gymunedol, fferi neu gwch, ac awyren. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth am agweddau a barn pobl am y dulliau teithio eraill hyn. Nid yw'r Arolwg Teithio yn gwahaniaethu yn ôl darparwr gwasanaeth, ac felly gall ffigurau ar gyfer defnydd neu fodlonrwydd fod yn wahanol i ffigurau sy'n benodol i gwmnïau.

Mae'r Arolwg Teithio yn arolwg newydd, a dyma'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Efallai fod gwahaniaethau'n codi oherwydd bod diffiniadau gwahanol wedi'u defnyddio ar gyfer arolwg, gan fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio neu gan fod gwahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data'n cael ei gasglu o sypiau rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026. Mae gwybodaeth am ansawdd ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd.

Mae nifer o dermau sy'n ymwneud yn benodol â thrafnidiaeth wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi llunio dogfen ddiffiniadau i helpu pawb i ddeall.

Y prif ganfyddiadau

- Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (57.2%) nad oeddent yn gwybod a oedd gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn eu hardal.
- Roedd 63.4% o'r ymatebwyr yn teithio i borthladd mewn car, naill ai fel teithiwr neu fel gyrrwr.
- Roedd 70.2% o'r ymatebwyr yn teithio i faes awyr mewn car, naill ai fel teithiwr neu fel gyrrwr, ac yna tacsi (12.2%) a thrên (9.5%).
- Roedd 69.0% o'r ymatebwyr yn fodlon ar eu taith ddiweddaraf ar drafnidiaeth gymunedol

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o Ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n dod i 100%.

Amlder teithiau drwy ddulliau eraill

Roedd y cwestiynau am ba mor aml yr oedd pobl yn teithio yn mesur pa mor aml yr oedd unigolyn wedi teithio drwy ddulliau eraill yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn yn wahanol i gyfran y dull teithio, sef cyfran y teithiau y pen y flwyddyn a wneir drwy ddull penodol.

- Roedd 2.8% o'r ymatebwyr yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol yn aml, gan deithio fel hyn o leiaf unwaith yr wythnos (0.8% y rhan fwyaf o ddiwrnodau, 1.2% sawl gwaith yr wythnos a 0.8% unwaith yr wythnos).
- Roedd 8.2% o'r ymatebwyr yn teithio ar drafnidiaeth gymunedol yn anaml. Roedd 1.8% o ymatebwyr yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol unwaith neu ddwy y mis, 2.2% unwaith bob ychydig fisoedd, a 4.2% unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn.
- Dywedodd 85.2% o ymatebwyr nad oeddent wedi defnyddio trafnidiaeth gymunedol o gwbl yn y deuddeg mis diwethaf.
- Roedd 1.2% o ymatebwyr yn teithio ar gwch neu fferi unwaith bob ychydig fisoedd, ac 16.7% unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn.
- Dywedodd 80.4% o ymatebwyr nad oeddent wedi defnyddio cwch neu fferi o gwbl yn y deuddeg mis diwethaf.
- Dywedodd 7.5% o ymatebwyr eu bod yn teithio ar awyren unwaith bob ychydig fisoedd, a 47.5% unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn.

- Dywedodd 42.5% o ymatebwyr nad oeddent wedi defnyddio awyren o gwbl yn y deuddeg mis diwethaf.

Dulliau eraill: amlder teithio

Ffigur 1: Pa mor aml yr oedd ymatebwyr wedi defnyddio trafnidiaeth gymunedol, fferi neu gwch ac awyren yn ystod y deuddeg mis diwethaf, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol yn dangos canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol, fferi neu gwch ac awyren yn aml, yn anaml neu ddim o gwbl. Ar gyfer y tri dull, mae cyfran yr ymatebwyr yn cynyddu wrth i'r teithio ddigwydd yn fwy anaml. Nid yw 42.5% o'r ymatebwyr ar gyfer awyrennau ac 85.2% ac 80.4% o'r ymatebwyr ar gyfer trafnidiaeth gymunedol a fferi neu gwch yn defnyddio'r dull i deithio o gwbl.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amlder teithio

Argaeledd trafnidiaeth gymunedol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi defnyddio trafnidiaeth gymunedol yn ystod y deuddeg mis diwethaf (82.5%) a oedd gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol ar gael yn eu hardal leol.

- Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (57.2%) nad oeddent yn gwybod a oedd gwasanaethau yn eu hardal.
- Dywedodd 28.5% o'r ymatebwyr fod gwasanaethau ar gael a dywedodd 14.0% nad oedd gwasanaethau ar gael.

- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru fod gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn eu hardal, sef 40.9%. Dilynwyd hyn gan Dde-orllewin Cymru (31.1%), Gogledd Cymru (28.2%) a De-ddwyrain Cymru (25.6%).

Argaeledd trafnidiaeth gymunedol

Ffigur 2: Canran yr ymatebwyr sy'n dweud bod gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol ar gael yn eu hardal yng Nghymru ac yn rhanbarthol, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol yn dangos cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd fod gwasanaethau ar gael yn eu hardal. Roedd y cyfartaledd ar lefel Cymru yn dangos bod 28.5% o'r ymatebwyr yn dweud bod gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol ar gael. Dywedodd 40.9% o'r ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru a 31.1% yn Ne-orllewin Cymru eu bod ar gael ond roedd gan Dde-ddwyrain a Gogledd Cymru lai na chyfartaledd Cymru, sef 25.6% a 28.2% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod ar gael.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, gwasanaethau teithio sydd ar gael a'r defnydd ohonynt

Y porthladd a ddefnyddiwyd yn y daith cwch neu fferi ddiweddaraf

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn defnyddio cwch neu fferi o leiaf unwaith y flwyddyn (18.4%) pa borthladd yn y DU roeddent wedi ei ddefnyddio ar eu taith ddiweddaraf a sut roeddent wedi teithio i'r porthladd hwn. Mae'r rhestr o borthladdoedd sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg hwn i'w gweld yn ein dogfen ddiffiniadau.

- Dover oedd y porthladd a ddewiswyd amlaf (20.2%) ymhlith y rhai a restrwyd. Yna Caergybi (13.6%) ac Abergwaun (7.3%). Fodd bynnag, dewisodd 28.4% borthladd arall, a dewisodd 24.1% nad oeddent wedi teithio o unrhyw un o'r porthladdoedd a restrwyd.

- Roedd 63.4% o'r ymatebwyr yn teithio i borthladd mewn car, naill ai fel teithiwr neu fel gyrrwr. Yna bws moethus (8.9%) a thrên (5.4%).

Y maes awyr a ddefnyddiwyd yn y daith awyren ddiweddaraf

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn defnyddio awyren o leiaf unwaith y flwyddyn (56.3%) pa faes awyr yn y DU roeddent wedi ei ddefnyddio ar eu taith ddiweddaraf a sut roeddent wedi teithio i'r maes awyr hwn. Mae'r rhestr o feysydd awyr sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg hwn i'w gweld yn ein dogfen ddiffiniadau.

- Roedd 42.3% o'r ymatebwyr wedi defnyddio Maes Awyr Bryste ar gyfer eu taith ddiweddaraf mewn awyren. Roedd 22.2% o'r ymatebwyr wedi defnyddio maes awyr yn Llundain. Roedd 17.4% o'r ymatebwyr wedi defnyddio Maes Awyr Caerdydd, ac 17.1% wedi defnyddio Manceinion.
- Bryste oedd y maes awyr a oedd yn cael ei ddefnyddio amlaf gan ymatebwyr o Dde-ddwyrain a De-orllewin Cymru, sef 56.7% a 53.0% yn y drefn honno. Ar gyfer ymatebwyr o Ganolbarth Cymru, Maes Awyr Birmingham oedd yn cael ei ddefnyddio amlaf, sef 24.9%. Yng Ngogledd Cymru, roedd 74.5% o'r ymatebwyr yn defnyddio Maes Awyr Manceinion.
- Roedd 93.4% o'r ymatebwyr wedi defnyddio awyren ar gyfer pleser a 5.6% o'r ymatebwyr ar gyfer busnes.
- Roedd 70.2% o'r ymatebwyr yn teithio i faes awyr mewn car, naill ai fel teithiwr neu fel gyrrwr. Yna tacsi (12.2%) a thrên (9.5%).

Profiad wrth deithio drwy ddulliau eraill

Fe wnaethom ofyn cwestiynau ychwanegol i ddefnyddwyr am eu profiad ar eu taith ddiweddaraf. Rydym wedi diffinio defnyddiwr trafnidiaeth gymunedol fel unrhyw ymatebydd sy'n dweud ei fod wedi teithio ar drafnidiaeth gymunedol o leiaf unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cyfateb i tua 11.0% o'r ymatebwyr.

Ar gyfer cwch neu fferi, rydym wedi diffinio defnyddiwr fel unrhyw ymatebydd a ddywedodd ei fod wedi defnyddio porthladdoedd Caergybi, Abergwaun neu Benfro ar ei daith ddiweddaraf. Mae hyn yn cyfateb i tua 4.7% o'r ymatebwyr.

Rydym wedi diffinio defnyddiwr awyren fel unrhyw ymatebydd a ddywedodd ei fod wedi defnyddio Maes Awyr Caerdydd ar ei daith ddiweddaraf. Mae hyn yn cyfateb i tua 17.4% o'r ymatebwyr.

Bodlonrwydd ar daith gyffredinol mewn trafnidiaeth gymunedol

- Dywedodd 69.0% o ymatebwyr a oedd yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol eu bod yn teimlo'n fodlon ar eu taith yn gyffredinol (25.2% yn fodlon iawn a 43.9% yn eithaf bodlon). Dywedodd 11.5% eu bod yn teimlo'n anfodlon (8.0% yn eithaf anfodlon a 3.5% yn anfodlon iawn).
- Roedd 69.4% o'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl yn fodlon ar y daith gyffredinol, o'i gymharu â 74.5% o'r ymatebwyr anabl.

Bodlonrwydd ar y profiad cyffredinol yn y porthladd

- Dywedodd 96.0% o ymatebwyr sy'n defnyddio fferi neu gwch eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu profiad yn gyffredinol (43.9% yn fodlon iawn a 52.2% yn eithaf bodlon). Dywedodd 3.4% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon neu'n anfodlon iawn.

Bodlonrwydd ar y profiad cyffredinol yn y maes awyr

- Dywedodd 91.9% o ymatebwyr a oedd yn defnyddio awyren eu bod yn teimlo'n fodlon ar eu profiad yn gyffredinol (51.2% yn fodlon iawn a 40.6% yn eithaf bodlon). Dywedodd 6.4% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 1.0% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.

Bodlonrwydd ar ddiogelwch: Trafnidiaeth gymunedol

- Dywedodd 74.4% o ymatebwyr sy'n defnyddio trafnidiaeth gymunedol eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu diogelwch (33.1% yn fodlon iawn a 41.3% yn eithaf bodlon). Dywedodd 7.2% o ymatebwyr eu bod yn anfodlon ar eu diogelwch ar eu taith ddiweddaraf (5.3% yn eithaf anfodlon a 1.9% yn anfodlon iawn).

Bodlonrwydd ar ddiogelwch: Taith ar fferi neu gwch

- Dywedodd 96.3% o ymatebwyr sy'n defnyddio cwch neu fferi eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu diogelwch (51.6% yn fodlon iawn a 44.8% yn eithaf bodlon) a dywedodd 2.5% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar ddiogelwch: Taith mewn awyren

- Dywedodd 95.9% o ymatebwyr sy'n defnyddio awyren eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu diogelwch (57.0% yn fodlon iawn a 38.9% yn eithaf bodlon). Roedd 3.6% o'r ymatebwyr yn teimlo'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon.

Bodlonrwydd ar hygyrchedd y cerbyd: trafnidiaeth gymunedol

- Dywedodd 73.5% o'r ymatebwyr a oedd yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar hygyrchedd y cerbyd (33.0% yn fodlon iawn a 40.5% yn eithaf bodlon). Dywedodd 5.1% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon ac roedd 2.7% yn teimlo'n anfodlon iawn.

- Roedd 76.5% o'r ymatebwyr anabl yn fodlon ar hygyrchedd y cerbyd, o'i gymharu â 72.1% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

Bodlonrwydd ar hygyrchedd yn y porthladd

- Dywedodd 93.9% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar hygyrchedd yn y porthladd (48.1% yn fodlon iawn a 45.8% yn eithaf bodlon). Roedd 3.4% o'r ymatebwyr yn anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon.

Bodlonrwydd ar hygyrchedd yn y maes awyr

- Dywedodd 93.3% o ymatebwyr sy'n defnyddio awyren eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar hygyrchedd yn y maes awyr (56.1% yn fodlon iawn a 37.2% yn eithaf bodlon). Roedd 4.8% o'r ymatebwyr yn teimlo'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon.

Teimlo croeso: Trafnidiaeth gymunedol

- Dywedodd 76.4% o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf ar drafnidiaeth gymunedol (32.0% yn fawr iawn a 44.3% i ryw raddau). Dywedodd 5.8% eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt.
- Roedd cyfran uwch o ymatebwyr anabl (81.4%) yn teimlo bod croeso iddynt wrth ddefnyddio trafnidiaeth gymunedol nag ymatebwyr nad ydynt yn anabl (74.8%).

Pam oedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd croeso iddynt: Trafnidiaeth gymunedol

- Dywedodd 5.8% o ddefnyddwyr trafnidiaeth gymunedol eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf ar drafnidiaeth gymunedol. Gofynnom i'r defnyddwyr pam eu bod yn teimlo fel hyn.
- Dywedodd 57.4% eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt oherwydd teithwyr eraill, dywedodd 40.6% oherwydd yr hyn sydd o'u cwmpas ac 18.8% oherwydd staff.

Teimlo croeso: Cwch neu fferi

- Dywedodd 97.1% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod croeso iddynt yn y porthladd ar eu taith ddiweddaraf ar gwch neu fferi. (54.1% yn fawr iawn a 43.0% i ryw raddau). Roedd 2.2% yn dweud ei bod yn teimlo'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon.

Teimlo croeso: Awyren

- Dywedodd 95.6% o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf ar drafnidiaeth gymunedol (58.7% yn fawr iawn a 36.9% i ryw raddau). Roedd 3.7% yn dweud eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon.

Pam oedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd croeso iddynt: Awyren

Dywedodd 3.7% o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf ar awyren. Gofynnom i'r defnyddwyr pam eu bod yn teimlo fel hyn.

- Dywedodd tua thri chwarter yr ymatebwyr (73.0%) eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt oherwydd staff y maes awyr.

Defnyddio'r Gymraeg:

Gofynnwyd i ddefnyddwyr a allai gyfathrebu yn Gymraeg pa iaith roeddent yn ei defnyddio wrth deithio mewn gwahanol ddulliau. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi diffinio defnyddwyr Cymraeg ar gael yn ein dogfen ddiffiniadau.

Defnyddio'r Gymraeg ar drafnidiaeth gymunedol

- Roedd 81.9% o'r ymatebwyr a oedd yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol yn defnyddio'r Saesneg a 20.1% yn defnyddio'r Gymraeg.
- O'r 68.8% o ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg, roedd 11.4% eisiau defnyddio'r Gymraeg ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny.

Defnyddio'r Gymraeg yn y porthladd ar daith cwch neu fferi

- Roedd 95.7% o'r ymatebwyr a oedd yn defnyddio cwch neu fferi yn defnyddio'r Saesneg a 21.2% yn defnyddio'r Gymraeg.
- O'r 78.8% o ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg, roedd 14.9% o ymatebwyr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny.

Defnyddio'r Gymraeg yn y maes awyr ar daith mewn awyren

- Roedd 96.9% o'r ymatebwyr a oedd yn defnyddio awyren yn defnyddio'r Saesneg ac 11.6% yn defnyddio'r Gymraeg.
- O'r 88.4% o ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg, roedd 8.4% o ymatebwyr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny.